**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2002

Mae'r rhain yn diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 ac yn gwneud gwelliannau canlyniadol i'r Offerynnau Statudol cysylltiedig sy'n ymwneud â phorthiant.

Mae'r gwelliannau hyn yn gweithredu Cyfarwyddebau'r Comisiwn ac yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliadau'r Comisiwn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ymddengys fod rheoliad 3 yn y testun Cymraeg wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol o bosibl. Fodd bynnag, byddai modd ei gywiro drwy femorandwm cywiriadau. Mae'r achos pryder fel a ganlyn –

1. Mae rheoliadau 7(1) a 24(1) yn nhestun Cymraeg OS 2001/343 (W.15) yn gywir wrth gynnwys y geiriau sydd o fewn dyfynodau yn Saesneg.
2. Pan ddiwygiwyd rheoliadau 7(1) a 24(1) drwy OS 2001/3461 (W.280), roedd testun Cymraeg y ddarpariaeth ddiwygio (rheoliad 4(1)) yn anghywir wrth roi'r geiriad mewn dyfynodau yn Gymraeg yn hytrach nag yn Saesneg.
3. Yn y rheoliadau presennol mae testun Cymraeg rheoliad 3 yn anghywir wrth roi'r darn cyntaf a ddyfynnwyd yn Saesneg (hy er y dylai'r geiriad dan sylw fod wedi bod yn Saesneg, yn OS 2001/3461 (W.280) nid yw'r geiriad yn Saesneg) ac wrth roi'r ail ddyfyniad yn Gymraeg.
4. Ymddengys y dylai testun Cymraeg rheoliad 3 yn y rheoliadau presennol gywiro testun Cymraeg rheoliadau 7(1) a 24(1) OS 2001/343 (W.15) er mwyn rhoi'r testun a fwriedir ar gyfer y rheoliadau hynny ar ffurf lle mae'r holl eiriau yn y dyfynodau yn Saesneg.

**Sylwadau Cyffredinol**

Nid yw cyfeiriadau at OS wedi’u cwblhau yn y Nodyn Esboniadol eto.

Ymddengys nad yw Paragraff 1 o’r Nodyn Esboniadol yn cyfeirio at yr OS cywir.

Mick Bates AC
**Cadeirydd, Pwyllgor Deddfau**

25 Mehefin 2002